# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 21.06.2023 AM 7 O'R GLOCH YR HWYR, YN YSTAFELL BOWLIO, CANOLFAN WAUNFAWR .

**Presennol –** Cynghorwyr Hawys Tuff (Cadeirydd)
Liz Daniel
Edgar Owen
Dafydd Davies
Sali Burns
Iwan Davies
Menna Trenholme
Shoned Rees Griffith (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng DJ, Cyng LLI, Cyng ID

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a chyffredinol 17.05.2023**
Y Cyng SB yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng DD yn eilio.

Dymunai'r cyn-gadeirydd Menna Trenholme roid y rhodd o £25 am y flwyddyn 2022/03 i DKMS. Cadeirydd i anfon manylion ymlaen i'r Clerc.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 17.05.2023**
**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Clerc wedi anfon e-bost i Cyngor Gwynedd i holi os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud yma, ond yn anffodus bu damwain ar y darn yma o ffordd ers ein cyfarfod diwethaf, a bu i berson ifanc lleol gael ei ladd. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad a theulu Josh yn dilyn y ddamwain, a byddwn mewn trafodaethau pellach gyda Chyngor Gwynedd i weld os oes rhywbeth y gallwn ei wneud er mwyn diogelu y darn yma o ffwrdd ar gyfer y tymor byr a'r hir dymor. Cyng SB i ddrafftio e-bost i'r Clerc anfon ymlaen i'r Cyngor. Bydd y ffordd rhwng Caernarfon a Chaeathro ar gau rhwn 12:00 a 3:00 ar y 23.06.2023 ar gyfer angladd Josh.
**Drych -** Yn dilyn derbyn ymateb Cyngor Gwynedd bod dim posibl gosod drych ar gyfer y mynediad i'r Stad gyferbyn a Glan Gwna yng Nghaeathro, bydd y Cyng MT am fynd i ymweld a perchennog yr eiddo i ofyn yn garedig os oes posibl torri y goedan yn nol er mwyn i drigolion allu gweld yn well wrth ddod i'r ffordd fawr.
**Llinellau Melyn ger mynediad Erw Wen** - Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.
**Monitro cyflymer traffic Hen Lon Gaeathro** - Aros canlyniad yr arolwg traffic.

**Cylchfan Gaeathro** - Gwaith ar y gweill gan Cyngor Gwynedd.
**Llwybr troed o Garej Gwalia hyd at y Llwybr Cyhoeddus** - gofyn i'r Cyng LLI am gynllun yn dangos yr union leoliad sydd ganddo dan sylw.

**Materion Waunfawr** –
**Llinnellau Gwyn –**.Wedi cael eu peintio ar y ffordd rhwng Dol Erddi a Ael y Bryn.
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** - Aros y Les gan Cyngor Gwynedd.
**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –**Aros tan ar ol mis Medi, pan fydd y rheol 20mya wedi dod i rym mewn pentrefi ac hefyd diweddariad ynglyn a'r ganolfan iechyd.
**Gwefan y Cyngor Cymuned –**Cyng DD a'r Clerc wedi cyfarfod ac wedi setio Google Drive i fyny er mwyn gallu safio Cofnodion ac Agenda y Cyngor Cymuned yn ganolog. Cafwyd trafodaeth ynglyn ac adio y Cynghorwyr i gyd iddo fel y byddai pawb a mynediad i'r Cofnodion a'r Agenda a byddai'n arbed anfon e-bost i bawb cyn bob cyfarfod. Eglurwyd gan y Clerc ei bod yn edrych i brynu gliniadur newydd er mwyn gallu gwneud hyn, cafwyd trafodaeth a penderfynwyd fod y Cyng DD ar ran y Cyngor Cymuned i edrych pa gliniadur fyddai orau ar gyfer swydd y Clerc, ac y byddai y Cyngor Cymuned yn prynu un. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglyn a'r wefan, ac ein bod wedi gallu cael mynediad ac wedi edrych drwyddi. Cyng DD i dacluso y wefan, a newid ambell fanylion yn fuan.
**Drych** - Aros i Cyngor Gwynedd osod y Drych gyferbyn a'r Hen Bost.
**Potiau blodau yn Waunfawr/Caeathro** - Pwyllgor yr Eisteddfod wedi derbyn e-bost ynglyn a addurno y pentref ar gyfer y Steddfod Genedlaethol, Clerc i holi Antur unwaith eto os ddim yna gofyn i'r Clwb Ienenctid. Cyng HT am archebu bunting ar gyfer addurno y penref a trefnu i cael baner i'w gosod.
**Baw Ci** - Broblem wedi gwella yn ddiweddar, angen trefnu i fynd i'r ysgol yn mis Medi rwan i siarad hefo'r plant.
**Gor yrru tu allan i'r ysgol** - Aros i'r mesyrydd cyflymder traffic gael ei osod tu allan i'r ysgol. Cafwyd trafodaeth ynglyn a problem parcio yn pentref yn gyffredinol. Clerc i ddarparu rhestr o'r manau sydd wedi eu amglygu fel llefydd problemus er mwyn i'r Cynghorwyr allu monitro a creu adroddiad pellach.
**Bin tu allan i siop** - Cyng DD yn mynd i drafod ymhellach gyda pherchenog y siop.

**6.** **Seddi Gwag -** un sedd wag ar ol ar y Cyngor Cymuned, Cynghorwyr i holi yn y pentref os oes gan rhwyun ddiddordeb.

**7.** **Gerddi Bach -** Clerc i fynd a'r ol pris gan MacVenture i osod rwber o dan y swings, ac hefyd archwiliad o'r offer chwarae. Aros adroddiad.

**8.** **Adroddiadau**

**a.** **Lloches Bws** -Aros i Cyngor Gwynedd newid enw sydd yn cael ei arddangos ar safle bws ger yr Hen Bost. Clerc wedi holi Cybi Cyf ar gyfer ail osod y ddau safle bws - un yn Groeslon ac un tu allan i'r ysgol.
**.** **Y Fynwent** - Angen addasu chydig ar y Rheolau'r Fynwent cyn eu rhoid ar ein gwefan a'u hargraffu. Gwaith wedi cychwyn heddiw i adnewyddu y wal rhwng y fynwent a'r llwybr cyhoeddus. Adroddiad fod paent wedi ei golli ar un o'r cerrig beddi, wedi ei lanhau. Bedd gwag - Cyng EO i holi'r teulu beth yw eu bwriad ar gyfer y dyfodol.
**c.** **Llwybrau -**. Wedi atgoffa G R Services am y wal tu ol i'r Cofgolofn.
**ch. Safle y Toiled a'r Maes Parcio drost ffordd i'r Hen Bost -** Dim

**d**. **Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** - Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Cyng DD ar y cynllun Cwyrfai Gwyrdd. Cyngor Cymuned Betws Garmon wedi datgan eu bod yn awyddus i fod yn bartner gyda ni. Mr Keith Jones, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol yn fodlon ein helpu. Y cam nesaf yw gwneud cyfansoddiad gyda Ellen o Antur Waunfawr a Community Benefit Society er mwyn gallu codi cyalaf, a gwneud cais i'r Loteri Cenedlaethol.

## 9. Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 16-06-2023 | Adfer yr prif eiddo gyda estyniad cefn, ynghyd a throsi'r adeiladau allanol yn unedau gwyliau | Pentre Gwyn, Waunfawr | C23/0479/12/CR | Cyngor Cymuned Betws Garmon |
| 16-06-2023 | Estyniad cefn i'r prif eiddo a trosi adeiladau allanol yn 2 uned gwyliau | Pentre Gwyn, Waunfawr | C23/0478/12/LL | Cyngor Cymuned Betws Garmon |
| 13-06-2023 | Diwygio Amod 2 o ganiatâd cynllunio C97A/0080/26/CL ar gyfer addasu adeilad yn gartref gwyliau er mwyn galluogi'r defnydd o'r adeilad at ddibenion gwyliau trwy gydol y flwyddyn. | Capel Bach, Tŷ'n Yr Onnen, Waunfawr | C23/0468/26/AC | Cafwyd eglurahd i'r cais gan y Cyng SB, aelodau o'r Cygor Cymuned yn hapus i gefnogi y cais. |

## 10. Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd - Llinellau Melyn, Caeathro
Cyngor Gwynedd - Ffordd rhwng Caeathro a Caernarfon
Cyngor Gwynedd - Rhybydd cau ffordd rhwng Caeathro a Chaernarfon
Cyng HT - Eisteddfod Genedlaethol, Penwythnos harddu pentref
BHIB - yswiriant 2023/24
Unllais - Rheolau Sefydlog
Eisteddfod Genedlaethol - llythyr diolch am y rhodd
Cyngor Gwynedd - Cynllun Rhannu Cartref

## 11. Materion Ariannol

### 11.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| BHIP Ltd | £469.79 |
| G R Services | £350.00 |
| T Brown | £72.00 |
| Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro | £72.00 |

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Mai | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

**11.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Canolfan Waunfawr | £80.00 |
| GR Services | £280.00 |
| Cyflog Clerc Mehefin | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |

**11.4 Ffioedd Banc**

| | |
|---|---|
| Ebrill - Mai 2023 | £5.80 |

Cyng EO wedi bod i'r banc HSBC, Caernarfon i holi am y posibilrwydd i'r Cyngor Cymuned gael cyfrif ar lein - angen trefnu i'r Cyng EO a'r Clerc fynd i'r banc.

**12. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 19.07.2023,yn Ystafell Bowlio, Ganolfan Waunfawr.

**13. Materion Aelodau. -**

| | |
|---|---|
| Cyng EO - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng SB - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng ID - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng LD - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng MJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng HT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng LLI - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng DD- | Dim wedi ei dderbyn |